Senedd Cymru
**Ymgysylltu â Dinasyddion**

# Data wedi'u hailddadansoddi o Gyfweliadau Teuluol

## Gweithredu Diwygiadau Addysg

Haf 2023

### Cefndir

Yn ystod haf 2023, fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ('*y Pwyllgor*' o hyn ymlaen), cafodd 40 teulu o bob rhan o Gymru gyfweliadau am eu profiad o gael mynediad at addysg a gofal plant: *A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?*

Roedd y ffocws ar fynediad at wasanaethau; fodd bynnag, soniodd teuluoedd yn aml am eu profiadau o'r diwygiadau addysg diweddar, gan ganolbwyntio'n benodol ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'r cyfweliadau hyn wedi'u hailddadansoddi i dynnu data a all fod yn berthnasol i'r Pwyllgor yn ei ymchwiliad dros dymor cyfan  y Senedd: *Gweithredu Diwygiadau Addysg*

Nod y papur hwn yw crynhoi'r hyn a rannodd y teuluoedd mewn trafodaethau. Cododd nifer o themâu allweddol sydd wedi'u hamlinellu isod.

### Awdurdodau lleol

Trafodwyd rôl yr awdurdodau lleol yn fanwl a chododd y themâu a ganlyn.

- Cyfathrebu Gwael:

Roedd llawer o deuluoedd yn wynebu oedi hir cyn cael diagnosis o anabledd dysgu eu plentyn. Fel mesur dros dro, roedd llawer o awdurdodau lleol yn drafftio Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) heb ddiagnosis fel bod y plentyn yn cael rhywfaint o gymorth wrth iddo aros. Fodd bynnag, esboniodd un cyfranogwr ei fod wedi bod yn sgwrsio â'r awdurdod lleol ers dechrau 2023 ac nad oedd wedi'i gwblhau eto pan gynhaliwyd y cyfweliad ym mis Mehefin 2023 er bod y cyfranogwr wedi ceisio cael sawl sgwrs am ba mor hir yr oedd y broses yn ei gymryd. Roedd yn debygol na fyddai'r plentyn hwn yn gallu cael mynediad at gymorth digonol nes i'r flwyddyn ysgol newydd ddechrau.

Mae myfyrwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol yn dal i gael problemau gyda strwythur y system hon.

> *"There is no communication, no forward planning from the local authority. The SEN school is brilliant. But at the moment if something changes on my daughter's IDP I don't get an update, even though I have asked for that. I try to keep checking them but I just don't know if they have put anything new on there."* – Eglurodd y cyfranogwr fod y system yn ddigidol a phan fydd diweddariadau yn digwydd nid yw'n cael eu hysbysu. Mae'r mecanwaith hwn yn hanfodol o safbwynt y teuluoedd i sicrhau bod anghenion eu plentyn bob amser yn cael eu diwallu.

Dywedodd un cyfranogwr yr hoffai i'r CDU fod yn fwy o ddogfen weithio oherwydd y gall rhai o sbardunau, dymuniadau, hoffterau ac anghenion ei blentyn amrywio. Mae CDUau i fod i fod yn ddogfennau gweithio, ond mae'n ymddangos naill ai nad ydynt yn cael eu defnyddio fel y cyfryw, neu nad yw hyn wedi'i gyfleu i'r cyfranogwr.

- Diffyg ymddiriedaeth, efallai'n gysylltiedig â thorri costau:

Roedd diffyg ymddiriedaeth wedi datblygu yn achos llawer o deuluoedd y gall eu plant fod wedi cael sawl blwyddyn o gymorth gan yr awdurdod lleol. Cyfeiriodd llawer o deuluoedd at wrthwynebiad o ran darparu cymorth digonol ac awdurdodau lleol yn cynnig llai o gymorth fel pe baent yn arbed arian.

> *"I don't have the trust and faith in the council to do right by my son to the point that I have already told them that I will be instructing a solicitor to look over it [CDU y plentyn] because I feel vulnerable as parent. I'm fearful and have a lack of trust because I've been through an ordeal before."*

- Diffyg adnoddau i'w cyflwyno:

Roedd gan un cyfranogwr bryderon am faint o waith papur yr oedd ei angen i drosglwyddo i CDUau. Eglurwyd sut y gallai hyn effeithio ar argaeledd a phwysau cyffredinol ar ystod o systemau.

> *"Local authorities are overrun with work, and so aren't coping to be able to deal with making changes [i CDUau]."*

## Lleoliadau addysg neu ofal plant

- Diffyg hyfforddiant:

Eglurodd llawer o gyfranogwyr eu bod yn meddwl bod angen i ysgolion allu cael mynediad at hyfforddiant i fod yn fwy cynhwysol, ond nid yw'r cymorth i alluogi hyn ar gael, h.y. nid oedd staff addysgu yn cael amser i fynychu cyrsiau hyfforddi.

- Diffyg mynediad at adnoddau h.y. cyllid a oedd yn gysylltiedig â chyllid awdurdodau lleol:

Dywedodd un cyfranogwr fod y system newydd yn ofnadwy ac y bydd yn niweidiol i'w fab.

> *"I see it as a bit of a dilution of entitlement, whereas before the school would get funding for whatever your statement outlined, that's been removed and now the school are recommending what support your child should get without any extra funding, and it feels like, they are never going actually support my child to the level he needs because they aren't getting any funding to do that."*
>
> *"My five-year-old daughter was in a mainstream and was entitled during the 8/10 hours that she was there, to get a one-to-one support worker, and it just never happened. They used a regular member of staff who was already factored into the classroom situation, and they were calling it one-to-one. I was going up to the school early and I was seeing her being moved by other children, physically push and moved out of the way and there was no one watching her. No matter how many times I went in, they just said they'd sort it out but it just kept happening."*

- Cyfathrebu gwael yn arwain at fod teuluoedd yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt:

> *"Despite the ALN Code, I don't feel that they are listening to parents' views, wishes and feelings. They didn't listen to us; why?"*

Trafododd un cyfranogwr gyfnod pontio ei blentyn o un lleoliad i'r llall. Dywedodd fod diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cyfathrebu o ysgol i ysgol pan fydd plant yn symud ysgol. Teimlai'r cyfranogwr ei fod yn gorfod ymdrechu i sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu ac roedd yn pryderu na fyddai pob rhiant yn sylweddoli hyn. Gallai'r diffyg tryloywder hwn arwain at ragor o blant yn llithro drwy'r rhwyd pan fyddant yn symud lleoliad.

*"We are supposed to be considered when the IDP is being put together but they literally do not care. They don't care that we have experienced so much and we know what is going on."*

Er bod un teulu wedi sylwi ar gyfathrebu gwell wrth roi'r CDU ar waith, roedd yn teimlo y byddai'r ysgol yn tynnu sylw at  ddyfynnu llinellau yn y polisïau pan oedd y teulu yn cwestiynu pethau nad oeddent wedi'u cynnwys. Roedd yn rhwystredig nad oedd yn ymddangos bod yr ysgol yn deall y dylai wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant anabl.

*"It feels like every year, I need to educate the new teacher about my son. There is supposed to be a file but I don't think they read it."*

*"I don't think the IDP is going to cover all his needs, and I don't see how he's going to ever really progress, or even catch up with his peers. He's the youngest of the year so he's already at a disadvantage [...] the IDP doesn't capture his sensory issues, it doesn't reflect him."*

## Problemau ehangach o ran y Cod ADY

- Mae'r system newydd yn amwys ac yn cael ei dehongli'n wahanol ledled Cymru:

*"They [IPD's] are as vague as possible and I think that's purposeful."*

Dywedodd sawl cyfranogwr fod hyn oherwydd diffyg cyllid. Er enghraifft, os yw'r CDU yn nodi bod rhaid i oedolyn gefnogi dysgu ei blentyn yn hytrach na bod rhaid i'r plentyn gael cefnogaeth 1:1, yna gall cynorthwyydd addysgu fod yn bresennol yn yr ystafell ddosbarth ac ymdrin â mwy nag un plentyn. Mae hyn yn peri risg na fydd anghenion y plentyn yn cael eu diwallu ond y bydd costau staffio yn cael eu lleihau. Fodd bynnag, gallai fod yn broblem os oes angen i un o'r plant y mae'n gyfrifol amdano adael yr ystafell, gan y bydd y

plentyn arall/y plant eraill wedyn heb gymorth am gyfnod. Gallai'r cymorth hwn fod yn hanfodol i rai myfyrwyr.

> *"Nobody will quantify support [...] children with down syndrome need a high level of support and they're not getting it because of the system that's now in place."*
>
> *"They [local authorities] are saying you can't have a 1:1. We don't offer that anymore and there's no money for it. Despite the fact that you've got written in an IDP that you need a high level of adult support across the board."*

Dywedodd y cyfranogwyr fod CDUau a datganiadau yn bwysig i ddangos yn glir yr hyn y mae eu plentyn yn gymwys i'w gael, felly pan fydd pethau'n cael eu tynnu ohonynt maent wedi teimlo bod hyn yn lleihau effaith y ddogfen. At hynny, pan fydd y teuluoedd wedi mynd â'u cwyn i dribiwnlys ac wedi ennill, maent yn teimlo'n ddigalon bod yna weithwyr proffesiynol *sy'n* ceisio tynnu pethau y mae eu hangen ar blant anabl. "It became an unnecessary fight that never should have been."

Mae cost i'r teulu am y tribiwnlysoedd yn aml ac ni all pob teulu fforddio'r gost hon. Felly, mae hyn yn ei gwneud yn fwy heriol adfer y cymorth y maent yn teimlo bod ei angen ar eu plentyn.

> *"We had to sort out a private solicitor and I paid a couple of private experts to support me in our quest to achieve regular physiotherapy and speech and langue therapy. We won."*

Dywedodd cyfranogwyr y dylai unrhyw system fel CDUau neu ddatganiadau ddiogelu'r adnoddau yr oeddent yn ystyried bod gan blant hawl iddynt. Dywedodd llawer nad oedd hyn yn digwydd yn yr hen system na'r system newydd.

> *"Education must safeguard children's rights to ensuring that provision included in the Statement of SEN/IDP is actually delivered and is of adequate quality to ensure progress. While this relates to speech and language therapy provision in a special*

*school nursery, I could have chosen any provision to illustrate this point. For example, my son's Statement secured weekly input from occupational therapy in school, though questioning during his second SENTW appeal in 2016 revealed that he had not actually seen an OT for over a year."*

- Problemau o ran cynnwys y CDU:

Mae'r Cod ADY newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr fod yn rhan o'r trafodaethau am ei gynllun cymorth ac addysg. Eglurodd un cyfranogwr:

*"There is better inclusion now within that system. But the problem is that it's done as a bit of a tick box exercise."*

Roedd gan un cyfranogwr bryderon ynghylch pa mor realistig oedd y targedau a pha mor aml y byddent yn cael eu monitro.

*"One of the targets was for him to sit with a staff member for 10 mins to read 2-3 times a week. But we are lucky if that happens even once a month. I don't see the point of waiting a whole academic year until we review those targets. Especially for children who are so far behind their peers. I think it warrants being more closely monitored."*

Roedd un cyfranogwr yn ymwybodol mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd, ond nid oedd yn ymwybodol o sut mae hynny'n gweithio'n ymarferol. Dywedodd un cyfranogwr hefyd bod y fformat newydd i'w weld yn fwy cymhleth, a'i fod yn ei gwneud yn anodd i'r rhiant allu olrhain cynnydd y plentyn.

*"Under the new system, I don't really feel like I know where he is in relation to his peers. That's how I rationalise his development and then find the gaps so I could help support him at home."*

Dywedodd rhai cyfranogwyr nad oedd y strwythur CDU newydd yn gwneud digon i blant ag anghenion mwy cymhleth:

> *"My son has some 200 targets each year. It's multidisciplinary and so several of the inputs might be implemented with a range of professionals. Because things interlink the current IDP structure doesn't lend itself to describing his needs and provision in a useful way. You cannot list 200 plus targets and the provision that meets each one, as is required by the template: it is unwieldy and useless for the professionals supporting my son...I feel like children with multiple complex needs are shortchanged by the new system."*

Dywedwyd bod CDUau yn fregus oherwydd hyblygrwydd y ddogfen a'i natur fel 'dogfen weithio'. Dywedodd rhai rhieni mai goblygiadau hyn oedd eu bod yn fwy tebygol o gael eu newid yn aml heb gytundeb y rhiant.

> *"My concern about IDP's is that they can be changed at any time, by anyone, and the parent and local authority could call for a review at any point. Potentially, you could go to a tribunal, get things organised to get the right provision in place, and then a few months later, the school could say we will change it."*

- Diffyg perchnogaeth / arweinyddiaeth gan awdurdodau neu ysgolion:

Wrth geisio cael mynediad at y systemau sy'n cynnig cymorth addysgol ychwanegol, dywedodd llawer o gyfranogwyr fod angen iddynt wneud y gwaith a rhoi o'u hamser, fel arall ni fydd anghenion eu plant yn cael eu diwallu yn eu lleoliad addysg. Maent yn neilltuo llawer o amser ac ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar gael ac y gall y prosesau symud ymlaen i'r cam nesaf:

*“The process to get his IDP was pretty straightforward. This was because I asked for every report from every professional I had been given.”*

Ond roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu na fyddai gan bob rhiant yr amser na’r ffocws i wneud hyn. Er enghraifft, yn achos rhieni sy’n gweithio neu rieni anabl. Dywedodd cyfranogwyr nad oedd systemau wedi’u cynllunio i fod yn hawdd.

Dywedodd cyfranogwyr fod diffyg dealltwriaeth gyffredinol o’r system newydd. Roeddent yn cysylltu hyn naill ai â diffyg hyfforddiant neu â chyfathrebu gwael ynghylch sut y dylai’r cod ADY weithio. Nid oeddent yn teimlo bod awdurdodau lleol nac ysgolion yn cymryd perchnogaeth nac yn arwain y ffordd i wneud yn siŵr bod pethau’n gyson ledled Cymru.

*“There is no information out there, especially when it comes to education, on what we are supposed to do, what our choices are, what education means for our kids? I still don’t really fully understand what is happening with the IDP’s. Perhaps the local authority feel that it isn’t their job to make sure that we know all these things, but if it’s not their job, then whose job is it?”*

- Mae gan yr ysgolion fwy o gyfrifoldeb ond nid oes ganddynt y pŵer i sicrhau bod cymorth gwasanaethau allanol yn bosibl, neu ychydig iawn o bŵer sydd ganddynt i ofyn am gyllid i gefnogi anghenion myfyrwyr unigol:

*“It's not OK to say, “we don't have the funds.” It should be a child centred approach based on what each child needs. Somebody that has the power should be able to make a decision about what each child receives and that's changed now because schools are the ones that are holding IDPs they don't have any power.”*

Rhoddodd un cyfranogwr enghraifft, pan oedd i fod i gael cyfarfod â nifer o asiantaethau lleol (ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, therapydd iaith a lleferydd ac ati), ond nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn bresennol yn y cyfarfod.

Mae rhieni hefyd yn teimlo eu bod wedi colli rhywfaint o bŵer yn y broses gwneud penderfyniadau gan nad yw'n bosibl mwyach i riant ddewis yr ysgol yr hoffent i'w plentyn ei mynychu. Roedd rhai cyfranogwyr yn gweld bod hyn yn anfantais fawr. Mae rhieni'n teimlo bod ganddynt lai o reolaeth dros y dyraniad, ac na wrandewir arnynt pan fydd yr awdurdod lleol yn dewis yr ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu.

> *"In the statement, I was able to name the school my son would go to, that was quite a powerful thing."*

- Plant yn y canol:

Yn achos plant sydd ag anghenion dysgu ond nad oes angen CDU arnynt i ddiwallu'r anghenion hyn, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod eu plant yn cael eu hanwybyddu. Ni allant gystadlu â'u cyfoedion ac nid oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei rhoi ar waith. Ystyrir bod hyn yn niweidiol yn yr hirdymor ac y gall y plant hyn ei chael yn anodd cael addysg dda.

> *"1:1's are not being given to the children who are managing. But they are getting no teaching and no learning, because they can cope. That's not okay. All children have a right to an education [...] I believe that disabled children are left out of parts of their education [...] when speaking about children with down syndrome, access to education is inconsistent [...] some schools are doing a brilliant job, but other schools are not."*

Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynghylch strategaethau a oedd yn cael eu rhoi ar waith cyn y diagnosis. Dywedodd un cyfranogwr yr oedd ganddo CDU ond heb ddiagnosis swyddogol o hyd nad oedd yn trafferthu darllen proffiliau gan yr ysgol a oedd yn cynnwys un

dudalen yn unig. Felly nid oeddent yn argyhoeddedig bod system dda i sicrhau bod athrawon yn cael gwybodaeth ar draws ysgol, neu efallai bod system dda ar waith, ond nad oedd gan y staff addysgu amser i sicrhau eu bod yn ymwybodol o anghenion pob disgybl.

- Diffyg cynhwysiant

Canfu un cyfranogwr fod y daith i gael CDU yn anoddach oherwydd bod y plentyn yn gwrthod cymorth yn aml.

> *"He didn't want support through fear of looking different to his school mates. But the school is failing to provide an environment where it's okay to be different."*

- Agweddau cadarnhaol:

Siaradodd un cyfranogwr yn gadarnhaol am ymagwedd yr ysgol, gan ddweud bod ei fynediad at CDU yn dda. Roedd yn meddwl bod hyn oherwydd bod y cydlynydd ADY proffesiynol yn dda yn ei swydd. Cafodd y cyfranogwr lawer o gymorth gan yr ysgol i'w alluogi i gael mynediad at gyllid ar gyfer sedd car.

Dywedodd cyfranogwr arall y byddai'n dibynnu'n fawr ar ba ysgol yr oedd y plentyn ynddi a faint o ymdrech yr oedd yn ei gwneud i gefnogi ADY. Eglurodd y cyfranogwr:

> *"I got his IDP at his old school after he left and I got an IDP at his new school before he began. This school is amazing, [...] It depends on the person or school staff you are working with."*
>
> *"I think things have gotten worse recently, certainly since the new ALN Act. I think we were just very, very lucky that we had a very good ALNCo in the secondary school."*